1. O’r wythnos hon ymlaen, cyflwynir newidiadau arwyddocaol a phwysig i’n trefniadau casglu arian cinio. Mae hyn yn ganlyniad i sustem taliadau electronig newydd Gwasanaeth Arlwyo Castell-nedd Port Talbot. A fyddech cystal â nodi’r canlynol:-

- *Dylid talu arian cinio, mewn arian parod neu siec, sef £8.50 yr wythnos, ar Ddydd Llun YN UNIG (neu ar Ddydd Mawrth os cwymp Gŵyl y Banc neu Ddiwrnod Mewn-swydd ar Ddydd Llun, neu fod eich plentyn yn absennol ar y dydd hwnnw). Dylid gwneud sieciau’n daladwy i NPTCBC, a dylid ysgrifennu rhif eich cerdyn siec ac enw a dosbarth eich plentyn/plant ar y cefn.*
- ***Ni anfonir unrhyw newid adref,** ond fe’i cedwir fel credyd ar gyfrif eich plentyn h.y. pe taech yn anfon £10 am 5 cinio, fe fydd £1.50 yn cael ei gario drosodd i’r wythnos ganlynol.*
- *Gofynnir i rieni gysylltu â Mrs Rees yn y Swyddfa ynghylch manylion am arian mewn credyd/dyled.*
- ***Dylid talu am brydau bwyd o flaen llaw**. Gellir gwneud hyn yn wythnosol, yn fisol, bob hanner tymor neu’n dymhorol..*
- *Bydd unrhyw arian cinio sydd heb ei dalu yn cael ei fonitro’n ofalus gan yr ysgol a’r AALl.*
- *Disgwylir i unrhyw blentyn sydd ag ôl-ddyled o £17 (10 diwrnod) ddod â phecyn bwyd i’r ysgol gan na fydd y sustem yn caniatáu rhagor o brydau bwyd nes i’r ddyled gael ei chlirio.*
- *Ni fydd unrhyw newidiadau i hawliau plant i dderbyn prydau bwyd yn rhad ac am ddim.*

2. Cofiwch fod angen taliad wythnosol o £1 i alluogi eich plentyn i dderbyn ffrwythau yn ddyddiol (50c i blant y Meithrin). A fyddech cystal â sicrhau bod yr arian ffrwythau yn cael ei ddodi mewn amlen **ar wahân** i’r arian cinio.

3. Fe fydd clybiau ar ôl oriau ysgol i blant Blwyddyn 3 – 6 yn ail-ddechrau ar **Ddydd Mawrth, Medi 15fed**.

4. Er mwyn ein galluogi i leihau’n sylweddol y maint o bapur llungopïo a ddefnyddir gan yr ysgol yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â mabwysiadu’r drefn sy’n bodoli yn y mwyafrif o ysgolion, rwy’n amgáu UN Ffurflen Ganiatâd i Rieni i’w chwblhau. Fe fydd y ffurflen hon yn gymwys ar gyfer pob ymweliad tan ddiwedd Tymor yr Haf 2010. Wrth gwrs, hysbysir rhieni yn llawn am bob ymweliad/gwibdaith/digwyddiad ymhell o flaen llaw.

1. As from this week, significant and important changes will be made to the collection of dinner money. This has been brought about by Neath Port Talbot Primary Schools' Catering Service's new electronic payment system. Please note the following:-

- *Cash or cheques should be sent in ONLY on a* **Monday at £ 8.50 per week** *(or on Tuesday in the event of a Monday Bank Holiday or INSET, or your child's absence on that day). Cheques made payable to NPTCBC. All cheques should have your* cheque card number *and child's/children's name and class/es clearly written on the back.*
- ***No change will be sent home****, but will be retained as credit on your child's account i.e. if you send in £10 for five dinners, £1.50 will be carried over to the following week.*
- *Full information on request to Mrs Rees in the Office can be made available to parents regarding any sums in credit/debit.*
- ***Meals should be paid for in advance****. These can be weekly, monthly, half termly or termly payments.*
- *Any* **outstanding dinner money will be strictly monitored***, with official follow-up by the LEA.*
- *Any child with arrears of £ 17.00 (10 Days) will be expected to bring a packed lunch as the system will not allow any more meals to be provided until the debt is cleared.*
- *There will be no changes to pupils' eligibility for Free School Meals.*

2. Please remember that we require a weekly payment of £1 to enable your children to have daily portions of fruit (50p for Nursery children) Could you ensure that the money is placed in a **separate** envelope to dinner money.

3. After-school clubs for pupils in Years 3 – 6 will re-commence on **Tuesday, September 15th.**

4. So as to enable us to make a huge reduction in the amount of photocopying paper used during the year, as well as replicating common practice in most other schools, I have attached a SINGLE Parental Consent Form for you to complete. This form will cover all out-of-school visits from now until the end of the Summer Term 2010. Parents will, of course, be fully informed of all visits/trips/events well in advance of the proposed date.